Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwaith arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach

# Arweiniad ar gyfer sefydliadau addysg bellach

## Chwefror 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon ebost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cefndir a throsolwg o rôl arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach (ACSAB)** | **1** |
| **Trosolwg o rolau** | **1** |
| **Rôl arolygydd arweiniol sefydliadau addysg bellach** | **2** |
| **Yr adolygiad blynyddol o berfformiad (ABP)** | **3** |
| **Medrau hanfodol** | **4** |
| **Rhagor o ymweliadau gan arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach** | **4** |
| **Thema ar gyfer 2013** | **4** |
| **Arweiniad ynghylch ymweliadau â sefydliadau addysg bellach** | **4** |
| **Trefnu cyfarfodydd** | **4** |
| **Defnyddio proses asesu'r sefydliad addysg bellach** | **5** |
| **Atodiad 1: Arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach** | **6** |
| **Atodiad 2: Adolygiad blynyddol o berfformiad sefydliad addysg bellach** | **7** |
| **Atodiad 3: Templed ar gyfer llythyr at sefydliadau addysg bellach** | **14** |
| **Atodiad 4: Arweiniad ar ddefnyddio Llais y Dysgwr** | **17** |
| **Atodiad 5: Arolwg Medrau ar gyfer arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach** | **18** |
| **Atodiad 6: Effaith uno sefydliadau addysg bellach** | **19** |

**Cefndir a throsolwg o rôl arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach (ACSAB)**

Mae sefydliadau addysg bellach (SABau) yn sefydliadau rhanbarthol allweddol sy'n cyflwyno ystod o addysg a hyfforddiant ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Mae ganddynt gysylltiadau pwysig ag ystod o gyrff strategol, gan gynnwys byrddau gwasanaeth lleol, rhwydweithiau 14-19, cyrff cyflogwyr a sefydliadau sector gwirfoddol.

Mae 14 sefydliad addysg bellach a dau sefydliad addysg bellach dynodedig yng Nghymru. I gydnabod rôl bwysig y sefydliadau hyn yng Nghymru, mae Estyn yn ystyried ei fod yn faes gwaith blaenoriaethol i ddilyn hynt a helynt datblygiadau yn y sector a monitro cynnydd a pherfformiad pob sefydliad. Mae Estyn wedi ailddiffinio rôl yr arolygydd cyswllt addysg bellach er mwyn mynd i'r afael â'r maes gwaith blaenoriaethol hwn.

Rydym wedi creu tîm o arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach (Gweler Atodiad 1), sy'n cynnwys wyth arolygydd. Caiff arolygwyr cyswllt sefydliad addysg bellach (ACSAB) eu dyrannu i sefydliadau addysg bellach mewn parau. Bydd un arolygydd yn cael ei ddynodi fel yr arolygydd arweiniol a'r ail fel yr arolygydd cymorth. Yn gyffredinol, maent yn dod ag arbenigedd a phrofiad i'r rôl a gallant rannu'r gwaith a chefnogi ei gilydd. Bydd nifer y sefydliadau addysg bellach y mae arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn gysylltiedig â nhw yn amrywio.

Dylai pob sefydliad addysg bellach ddisgwyl o leiaf ddau ymweliad mewn blwyddyn academaidd. Bydd un o'r ymweliadau'n para rhwng deuddydd a thridiau ac yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer llunio adolygiad blynyddol o berfformiad (ABP) ar gyfer y sefydliad addysg bellach priodol. Byddwn yn cyhoeddi llythyr blynyddol i bob sefydliad addysg bellach, ar sail deilliannau'r adolygiad blynyddol o berfformiad.

Bydd ymweliadau eraill yn canolbwyntio ar ddeilliannau'r ABP neu ar agweddau eraill ar waith fel themâu a nodwyd ar gyfer y sector, neu wybodaeth yn ymwneud â'n cylch gwaith. Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn ymweld â safleoedd gwahanol mewn sefydliadau unigol er mwyn cael trosolwg o safonau, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob safle.

**Trosolwg o rolau**

Mae arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn darparu dadansoddiad a throsolwg manwl o berfformiad sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am lunio adolygiad blynyddol o berfformiad ar y sefydliad ar ffurf llythyr cyhoeddedig at y sefydliad. Bydd y llythyr hwn yn cynnwys argymhellion i'r sefydliad wella. Bydd y sefydliad yn darparu cynllun gweithredu byr i Estyn, wedi'i seilio ar yr argymhellion hyn, a bydd yr arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach yn ei fonitro.

Mae holl waith yr arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach yn rhan o'r broses arolygu ac felly y dylid ei drin. Dylai'r sefydliad fod yn ymwybodol o swyddogaeth arolygu gwaith yr arolygydd cyswllt.

Mae arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn meithrin perthynas barhaus rhwng y sefydliad addysg bellach ac Estyn hefyd. Bydd gan yr arolygydd cyswllt rôl allweddol mewn arolygu a gwaith dilynol ac mae'n cyfleu gwybodaeth wrth Arolygydd Cofnodol arolygiad o sefydliad addysg bellach.

**Rôl arolygydd arweiniol sefydliadau addysg bellach**

Mae rôl arolygydd arweiniol sefydliadau addysg bellach yn cynnwys:

- monitro ac arfarnu safonau, darpariaeth ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth eu sefydliadau addysg bellach priodol;
- monitro pa mor dda y mae sefydliad addysg bellach yn rheoli ystod ei ddarpariaeth addysg;
- llunio llythyr blynyddol, i'w gyhoeddi, ar berfformiad cyffredinol sefydliad addysg bellach, gydag argymhellion;
- monitro'r cynllun gweithredu dilynol sy'n cael ei lunio gan y sefydliad addysg bellach;
- gweithio gyda'r sefydliad addysg bellach a thîm data Estyn ei hun i ddadansoddi, deall a dehongli data'r sefydliad sydd wedi'i wirio a heb ei wirio;
- dadansoddi a dehongli gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer ardal y sefydliad;
- monitro a herio'r sefydliad addysg bellach ynghylch deilliannau ei arolygiadau a monitro cynnydd ar argymhellion arolygiadau;
- cyfarfod â rhanddeiliaid fel sefydliadau cyflogwyr ac awdurdodau lleol i gael safbwynt ehangach ar ba mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn ymateb i wybodaeth am y farchnad lafur;
- darparu dadansoddiad o ddeilliannau Llais y Dysgwr yn y sefydliad;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Estyn am ddatblygiadau gyda'r sefydliad addysg bellach;
- cyfrannu at asesiad risg o sefydliadau addysg bellach mewn sector;
- cymryd rhan mewn rhannu gwybodaeth ar gyfer arolygiadau a gweithgarwch dilynol;
- ymateb i Lywodraeth Cymru; a
- chasglu data a gwybodaeth i gyfrannu at waith cylch gwaith a thrafod sut mae sefydliadau addysg bellach yn mynd i'r afael ag unrhyw argymhellion perthnasol o adroddiadau cylch gwaith Estyn.

## Cymryd rhan mewn arolygiadau o sefydliadau addysg bellach a gweithgarwch dilynol

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach:

- yn cymryd rhan mewn arolygiadau craidd ac arolygiadau dilynol fel aelod o dîm; ac
- yn cysylltu â'r Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau bod argymhellion arolygiad Estyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu ansawdd, ac yn monitro cynnydd y sefydliad addysg bellach wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ystod ymweliadau cyswllt.

**Yr adolygiad blynyddol o berfformiad (ABP)**

(Gweler Atodiad 2)

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliad addysg bellach yn gweithio gyda'r uwch reolwyr yn y sefydliad addysg bellach a'u staff i adolygu perfformiad, nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr adolygiad blynyddol yn ymdrin â rhwng deuddydd a thridiau, ac yn cynnwys gwybodaeth o waith paratoadol a gwybodaeth arall sydd ar gael i'r ddau arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach. Bydd yr adolygiad blynyddol yn arwain at lythyr am yr adolygiad blynyddol o berfformiad (Gweler Atodiad 3).

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliad addysg bellach yn paratoi cyn yr ymweliad trwy ddwyn ynghyd a dadansoddi ystod y wybodaeth am berfformiad sydd ar gael, gan gynnwys:

- data am berfformiad;
- deilliannau arolygu;
- deilliannau unrhyw ymweliadau monitro neu ymweliad cylch gwaith;
- Llais y Dysgwr; ac
- adroddiad hunanasesu blynyddol y sefydliad addysg bellach.

Bydd yr adolygiad blynyddol o berfformiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- deilliannau'r arolygiad diweddaraf, gan gynnwys argymhellion a wnaed ar gyfer sefydliadau etifeddiaeth;
- safonau presennol, wedi'u cefnogi gan ddadansoddiad o ddata am berfformiad;
- medrau;
- ansawdd yr addysgu a'r dysgu (gan gynnwys unrhyw fentrau i wella addysgu yn y sefydliad);
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth;
- effaith uno sefydliadau; (gweler y cof cymorth yn yr atodiad);
- y defnydd a wna'r sefydliad o ddeilliannau arolwg Llais y Dysgwr a phrosesau eraill ar gyfer rhoi adborth i ddysgwyr a ddefnyddir gan y sefydliad addysg bellach;
- pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn dwyn arweinwyr a rheolwyr i gyfrif trwy gyfarfod â'r corff llywodraethol ac arfarnu ansawdd y dogfennau a gyflwynir i lywodraethwyr;
- unrhyw faterion sy'n deillio o ansawdd adroddiadau a ddarperir i Estyn cyn arolygiadau; ac
- unrhyw faterion penodol y mae'r arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach wedi dod yn ymwybodol ohonynt trwy wybodaeth gan gydweithwyr neu o gwynion o'r tu allan i Estyn.

Bydd yr adolygiad blynyddol o berfformiad yn cynnwys arfarniad o brosesau'r sefydliad addysg bellach ei hun ar gyfer gwella addysgu ac asesu a'r modd y mae'n mynd i'r afael â thanberfformio neu anghysondebau ym mherfformiad athrawon. Dros y flwyddyn, gallai arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach ymgymryd â nifer gyfyngedig o arsylwadau gwersi os yw addysgu yn drywydd ymholi, yn argymhelliad yn yr adroddiad arolygu blaenorol neu i nodi arfer ragorol.

Bydd yr arolygydd cyswllt sefydliad addysg bellach yn defnyddio'r adroddiad perfformiad yn Atodiad 2 i gofnodi deilliannau'r ymweliad adolygiad blynyddol o berfformiad ac yn paratoi'r llythyr cyhoeddedig a drafodir yn Atodiad 3.

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach lunio cynllun gweithredu wedi'i seilio ar yr argymhellion ar gyfer gwella sy'n deillio o'r adolygiad blynyddol o berfformiad, ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan yr arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach.

**Medrau hanfodol**

Dylai arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach arfarnu pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn cynorthwyo dysgwyr i wella'u medrau. Dylai arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach fod yn gyfarwydd â'r arweiniad arolygu atodol ar gyfer arolygu llythrennedd a rhifedd yn arolygu llythrennedd a rhifedd. Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn cynnal yr arolwg medrau yn Atodiad 5.

**Rhagor o ymweliadau gan arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach**

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn cynnal rhagor o ymweliadau sy'n para am gyfnod byrrach i fonitro cynnydd yn unol â'r argymhellion o'r adolygiad blynyddol o berfformiad, a gwaith arall fel ymweliadau â gwahanol safleoedd, arfarnu themâu, neu waith sy'n cyfrannu at adroddiadau cylch gwaith.

**Thema ar gyfer 2014**

Bydd cyfarfodydd cyswllt yn ystod y flwyddyn hon yn canolbwyntio'n bennaf ar uno sefydliadau a sut caiff yr effaith honno ei harfarnu yn adroddiad hunanasesu presennol y sefydliad addysg bellach.

**Arweiniad ynghylch ymweliadau â sefydliadau addysg bellach**

Mae Arolygwyr Cyswllt yn ymweld â sefydliadau addysg bellach i gyfarfod ag ystod o staff: uwch arweinwyr, rheolwyr, aelodau eraill o staff, a dysgwyr er mwyn monitro ac arfarnu'r cynnydd y mae'r sefydliad addysg bellach yn ei wneud.

Cyfrifoldeb y sefydliad addysg bellach yw gwybod pa mor dda y mae'n gwneud, ei gryfderau a'i wendidau. Dylai dysgwyr allu bod yn atebol am y rhain a'u hesbonio i'w harolygwyr cyswllt.

**Trefnu cyfarfodydd**

Bydd amser yn cael ei neilltuo i arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach ymlaen llaw ar gyfer ymweliadau a byddant yn rhoi gwybod i'r sefydliad addysg bellach am ddyddiadau pan fyddant ar gael. Dylai'r arolygydd cyswllt arweiniol sefydliadau addysg bellach gytuno ar agenda gydag uwch arweinwyr. Bydd gwybodaeth o ymweliadau yn llywio llythyr am yr adroddiad diwedd blwyddyn at y sefydliad addysg bellach.

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn anfon cwestiynau y mae arnynt eisiau eu harchwilio i'r sefydliadau addysg bellach cyn yr ymweliad ac yn gofyn i arweinwyr hunanasesu yn erbyn y cwestiynau. Yn ystod yr ymweliad, byddant yn amlygu cryfderau penodol a meysydd i'w gwella a nodwyd gan y sefydliad addysg bellach.

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn dymuno ymweld â mwy nag un sefydliad yn ystod y flwyddyn. Bydd arolygwyr yn siarad ag ystod o staff a dysgwyr fel y bo'n briodol.

**Defnyddio proses asesu'r sefydliad addysg bellach**

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach yn defnyddio adroddiad hunanasesu'r sefydliad addysg bellach ei hun yn sail ar gyfer eu gwaith. O ran hyn, rydym yn golygu'r hunanasesiad arferol y mae sefydliadau addysg bellach yn ei gynnal fel rhan o'u cylch gwella busnes blynyddol ac yn adrodd am hyn i'w corff llywodraethol ac i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn fan cychwyn ar gyfer y drafodaeth rhwng yr arolygwyr cyswllt a'r arweinwyr.

Bydd arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach hefyd yn dangos diddordeb yn y modd y mae rheolwyr yn defnyddio adroddiadau hunanasesu a chynlluniau datblygiadol i hysbysu'r corff llywodraethol a galluogi'r corff llywodraethol i fonitro a gwella perfformiad a safonau addysg yn eu sefydliad.

| **Atodiad 1:** Arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach – Chwefror 2014 |
|---|

| Coleg | AEM Arweiniol | AEM Cymorth |
|---|---|---|
| Coleg Sir Gâr | Mark Evans | Alun Connick |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Mark Evans | Bernie Hayward |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | Mark Evans | Bernie Hayward |
| Coleg Merthyr | Bernie Hayward | Mark Evans |
| Coleg Sir Benfro | Liam Kealy | Sandra Barnard |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Steve Bell | Mark Evans |
| Coleg y Cymoedd (Morgannwg ac Ystrad Mynach) | Mark Evans | Alun Connick |
| Coleg Gwent | Liam Kealy | Steve Bell |
| Coleg Ceredigion | Gill Sims | Liam Kealy |
| Coleg Cambria (Glannau Dyfrdwy ac Iâl) | Gill Sims | Liam Kealy |
| Grŵp NPT (Coleg Castell-Nedd a Choleg Powys) | Steve Bell | Gill Sims |
| Grŵp Llandrillo Menai | Gill Sims | Liam Kealy |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru | Rachael Bubalo/Alun Connick |
| Coleg Cymunedol YMCA | Alun Connick/Rachael Bubalo |
| Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant | Rachael Bubalo |
| Prifysgol De Cymru | Rachael Bubalo |

**Atodiad 2: Adolygiad blynyddol o berfformiad sefydliad addysg bellach**

**Enw'r sefydliad addysg bellach:**

**Arolygydd cyswllt arweiniol:**

**Arolygydd cyswllt cymorth:**

**Dyddiad yr ymweliad:**

Mae'r adroddiad perfformiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn gronfa flynyddol o wybodaeth a dadansoddiad bwrdd gwaith yn ogystal ag arfarniad yn seiliedig ar ymweliadau gan arolygwyr cyswllt ôl-16 â sefydliadau AB. Bydd Estyn yn cyhoeddi'r adroddiad ar bob sefydliad yn flynyddol ym mis Gorffennaf ar ffurf llythyr i'r sefydliad. Dylid defnyddio'r adroddiad i ddarparu adroddiad 'cyflwr y genedl' ar sefydliadau AB ar gyfer Adroddiad Blynyddol PAEM.

Bydd arolygwyr cyswllt yn cwblhau'r adroddiad perfformiad hwn o dan y penawdau adran canlynol o Dachwedd 2013 ymlaen. Rhaid cwblhau'r adroddiad erbyn 22 Gorffennaf 2014.

**Gweithgaredd yr ymweliad:** Cyffredinol / Cylch gwaith / Gweithgarwch dilynol

Rhowch fanylion bras am arweinwyr, rheolwyr a staff a gafodd eu cyfweld, y materion a drafodwyd a'r gweithgarwch yr ymgymerwyd ag ef.

| |
|---|
| |

## 1 Deilliannau a safonau

### Crynodeb o adroddiad perfformiad

O ran data, bydd arolygwyr bob amser yn adolygu data cyhoeddedig LlC (adroddiadau deilliannau dysgwyr) dros y tair blynedd diwethaf. Bydd arolygwyr yn defnyddio meini prawf Estyn ei hun ar gyfer dadansoddi data ar gyfer llunio barnau. Er y bydd arolygwyr yn adolygu data nas gwiriwyd presennol y sefydliad addysg bellach, rhoddir blaenoriaeth i'r data a wiriwyd wrth lunio barnau am berfformiad. Ar gyfer y llythyr arfarnu blynyddol, bydd adroddiad perfformiad yn cael ei roi i arolygwyr cyswllt yn benodol ar gyfer y sefydliad a baratowyd gan dîm perfformiad sefydliadau addysg bellach Estyn.

Defnyddiwch y tablau isod i nodi:

- pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn perfformio o gymharu â'r sector;
- y meysydd rhaglen sy'n perfformio'n dda;
- meysydd sy'n tanberfformio; a
- chymariaethau ar draws pob un o safleoedd y sefydliadau.

| ***Pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn perfformio o gymharu â'r sector*** | | |
|---|---|---|
| ***Cryfderau*** | ***Meysydd i'w Gwella*** | ***Sylwadau*** |
| | | |
| ***Rhaglen / meysydd dysgu sy'n perfformio'n dda*** | ***Niferoedd*** | ***Canran cyfanswm nifer y dysgwyr*** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| ***Rhaglen / meysydd dysgu sy'n tanberfformio*** | ***Niferoedd*** | ***Canran cyfanswm nifer y dysgwyr*** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| ***Cymariaethau ar draws safleoedd*** | | |
| ***Cryfderau*** | ***Meysydd i'w gwella*** | ***Sylwadau*** |
| | | |

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| *Dylid arfarnu'r canlynol hefyd:*<br><br>• *Safon Uwch (yng nghyd-destun yr ardal y mae'r sefydliad yn ei gwasanaethu, os yw'n sefydliad trydyddol neu'n darparu rhaglen Safon Uwch 'ailsefyll' neu annibynnol);*<br>• *Bagloriaeth Cymru, o ran lefelau, nifer y dysgwyr sy'n dilyn rhaglen a safonau; ac*<br>• *effaith strategaethau llythrennedd a rhifedd.* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 2 Crynodeb o fedrau hanfodol

Yn yr adran hon, adolygwch pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn cynllunio ac yn darparu ar gyfer datblygu medrau dysgwyr, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. D.S. defnyddiwch ddeilliannau'r arolwg medrau yn atodiad 5 i lywio'r adran hon.

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Faint o ddysgwyr sydd wedi nodi anghenion cymorth o asesiad cychwynnol?*<br>• *Faint o ddysgwyr sy'n cael cymorth priodol?*<br>• *Pa ystod o fesurau cymorth sydd ar waith?*<br>• *Pa systemau a gweithdrefnau sydd ar waith i gynorthwyo dysgwyr?*<br>• *Pa mor effeithiol y mae'r sefydliad addysg bellach yn monitro effaith y mesurau cymorth ar helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau dysgu?*<br>• *Pa mor effeithiol y mae'r sefydliad addysg bellach yn monitro cost effeithiolrwydd mesurau cymorth?*<br>• *Sut caiff y pellter y mae dysgwyr yn ei deithio ei fesur a'i gofnodi?* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 3 Ansawdd addysgu ac asesu

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| *Arfarnwch effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad addysg bellach ar gyfer gwella addysgu ac asesu, gan gynnwys deilliannau arsylwadau blynyddol o addysgu ac asesu, mentrau i wella addysgu ac asesu a rheoli perfformiad athrawon/tiwtoriaid/hyfforddwyr.* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 4 Cwricwlwm

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| *Arfarnwch pa mor dda y mae'r cwricwlwm a gynigir ar draws holl safleoedd y sefydliad addysg bellach yn cyd-fynd â'r canlynol:*<br><br>• *gwybodaeth am y farchnad lafur;*<br>• *blaenoriaethau lleol;*<br>• *blaenoriaethau cenedlaethol; ac*<br>• *anghenion cyflogwyr.* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn yr adran hon, adolygwch y cyfeiriad strategol a'r trefniadau rheoli.

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Pa mor effeithiol yw strwythurau rheoli?*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phob aelod o staff?*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r corff llywodraethol?*<br>• *Pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn dwyn arweinwyr a rheolwyr i gyfrif?*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn cofnodi a monitro cynnydd dysgwyr?*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur wrth adolygu cyrsiau?*<br>• *A yw'r sefydliad yn cynnig cyrsiau newydd?*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio i fodloni blaenoriaethau lleol* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |

| | |
|---|---|
| *a chenedlaethol? Beth yw'r blaenoriaethau lleol?* | |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Arfarnwch weithdrefnau ac arferion sicrhau ansawdd y sefydliad addysg bellach.*<br>• *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ac yn adrodd ar ddata ar gadw, cyrhaeddiad a chyflawniad?*<br>• *Arfarnwch effeithiolrwydd trefniadau hunanasesu'r sefydliad addysg bellach.*<br>• *Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am drefniadau sicrhau ansawdd?*<br>• *Arfarnwch effeithiolrwydd gweithdrefnau'r sefydliad addysg bellach i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio a chynllunio gwelliant (e.e. defnyddio targedau, perfformiad tiwtoriaid).*<br>• *Pa mor dda y caiff arfer dda ei nodi a'i rhannu?* | **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 7 Crynodeb o ddeilliannau o arolygu ac adolygu argymhellion o'r arolygiad diwethaf

D.S. Defnyddiwch y tablau yn yr atodiad i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Rhowch drosolwg o ddeilliannau o'r arolygiad diwethaf.*<br>• *Arfarnwch pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach wedi mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol, gan gynnwys yr argymhellion a wnaed i sefydliadau etifeddiaeth.*<br>• *Beth yw'r themâu cyffredin?*<br>• *Sut mae'r sefydliad addysg bellach wedi blaenoriaethu argymhellion?*<br>• *Pa gynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion?* | **Nodweddion da:**<br>•<br>**Meysydd i'w gwella:**<br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

## 8 Rhwydweithiau 14-19 a safbwyntiau gan randdeiliaid eraill

Yn yr adran hon, adolygwch weithgareddau'r sefydliad addysg bellach mewn rhwydweithiau 14-19. Dylech gyfarfod â chydlynydd y rhwydwaith i asesu effaith cyfraniad y sefydliad addysg bellach at y rhwydwaith.

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Pa gyrsiau ar y cyd y mae'r sefydliad addysg bellach yn eu cynnig trwy'r rhwydwaith 14-19?*<br>• *Beth yw rôl y sefydliad addysg bellach ar y rhwydwaith?* | **Nodweddion da:**<br>•<br>**Meysydd i'w gwella:**<br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

### Safbwyntiau gan randdeiliaid eraill

| *Arweiniad* | *Arfarniad* |
|---|---|
| • *Pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn dylanwadu ar weledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac yn cyfrannu at ei feysydd gwaith blaenoriaethol?*<br>• *Pa mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach yn cysylltu â chyrff cyflogwyr ac yn mynd i'r afael â'u blaenoriaethau?* | **Nodweddion da:**<br>•<br>**Meysydd i'w gwella:**<br>• |
| **Negeseuon allweddol:** | |

| 9 Arall |
|---|

**Thema allweddol 2013-2014; crynodeb o effaith uno sefydliadau**

**(Gweler y ffurflen yn yr atodiad ar gyfer arweiniad ar arfarnu effaith uno sefydliadau. Fodd bynnag, rhowch grynodeb yma.)**

| ***Arfarniad*** |
|---|
| **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** |

**Y defnydd a wneir o Llais y Dysgwr a'i effaith ar wella darpariaeth i ddysgwyr**
(Gweler yr arweiniad ar wahân ar gyfer dadansoddi a dehongli deilliannau Llais y Dysgwr (Atodiad 4). Gallai arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach ystyried prosesau'r sefydliad addysg bellach ei hun hefyd ar gyfer cofnodi llais y dysgwr, a gweithredu yn unol ag ef. Rhowch grynodeb yma.)

| ***Arfarniad*** |
|---|
| **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br>• |
| **Negeseuon allweddol:** |

**Darpariaeth Gymraeg**

| *Arfarniad* |
|---|
| **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** |

**Cynnydd cynnar ar gyflwyno rhaglenni meysydd dysgu**

| *Arfarniad* |
|---|
| **Nodweddion da:**<br><br>•<br><br>**Meysydd i'w gwella:**<br><br>• |
| **Negeseuon allweddol:** |

**Materion eraill a nodwyd gan yr arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach**

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Golygwyd yr adroddiad gan (Enw a llofnod y golygydd) | |
| Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Enw a llofnod y Cyfarwyddwr Cynorthwyol | |
| Dyddiad y cafodd yr adroddiad a gymeradwywyd ei lanlwytho ar SharePoint | |

| | |
|---|---|
| Gwelwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Strategol – Llofnod y Cyfarwyddwr Strategol a dyddiad | |

Dylid anfon yr adroddiad at y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, ac anfon copi at arolygydd arweiniol y sector, erbyn diwedd y dydd, **22 Gorffennaf 2014**

**Atodiad 3:  Templed ar gyfer llythyr at sefydliadau addysg bellach**

Pennaeth
Sefydliad XXXXX
Cyfeiriad

Dyddiad

Annwyl

**Adroddiad Estyn ar adolygiad blynyddol o berfformiad ar Sefydliad xxxxxx**

Yn dilyn yr ymweliad adolygiad blynyddol o berfformiad â'ch sefydliad ar [dyddiad/dyddiadau], mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw.  Mae'r llythyr hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn.

Arfarnodd [nodwch enw] AEM berfformiad presennol y sefydliad ac adolygodd y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau cynharach. Mae hyn wedi arwain at nodi rhagor o feysydd i'w gwella, sydd wedi'u hamlinellu ar ddiwedd y llythyr.

Cynhaliodd [nodwch enw] AEM drafodaethau gyda'r pennaeth a'r uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol.  Craffodd ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol.  Fe [wnaethant] hefyd ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy sampl o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith dysgwyr.

Ar ddiwedd pob ymweliad gan arolygydd cyswllt, adroddodd [nodwch enw] AEM ei ganfyddiadau/chanfyddiadau wrth bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

**Canlyniad ymweliadau'r arolygydd cyswllt**

Ers yr arolygiad o [nodwch enwau'r sefydliad neu'r sefydliadau cyfansoddol yn achos sefydliad wedi'i uno] yn [nodwch ddyddiad], mae cyflymder y gwelliant yn y sefydliad, yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu, wedi bod yn [disgrifiwr].

## 1 Deilliannau a safonau

Yn [nodwch ddyddiad / blwyddyn y data deilliannau a wiriwyd], lefelau perfformiad xxxxx  [defnyddiwch yr adran dadansoddi data a baratowyd i chi gan y tîm data AB. Os cewch ddata gan y sefydliad nad yw'n cyfateb â'r set ddata gan Lywodraeth Cymru, yna trafodwch hyn gyda'r tîm data AB.  Gellir rhoi sylwadau ar ddata nas gwiriwyd, ond ni ddylai hyn gyfrannu at yr arfarniad cyffredinol o berfformiad y sefydliad].

## 2 Medrau hanfodol

Yn y paragraff hwn, dylech ddefnyddio'r arfarniad rydych wedi'i wneud ynghylch cynlluniau'r sefydliadau addysg bellach i gefnogi datblygiadau medrau hanfodol dysgwyr.

## 3 Addysgu ac asesu

Yn y paragraff hwn, dylech ddarparu arfarniad o effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliadau addysg bellach ar gyfer gwella addysgu ac asesu.

## 4 Cwricwlwm

Yn y paragraff hwn, dylech ddarparu arfarniad o ba mor dda y mae'r cwricwlwm yn bodloni gwybodaeth am y farchnad lafur, blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac anghenion cyflogwyr.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Rhaid i'r paragraff hwn/adran hon arfarnu effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sefydliad addysg bellach, gan gynnwys lefel ymwybyddiaeth y pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth, gan gynnwys llywodraethwyr y sefydliad, staff a chynrychiolwyr corff myfyrwyr y meysydd i'w gwella a heriau ym mherfformiad y sefydliad a chyflwyno addysg a hyfforddiant ar gyfer ei ddysgwyr. Arfarnwch pa mor dda y maent yn gwybod ac yn deall yr hyn y mae angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau rhag gwneud cynnydd.

Dylai'r paragraff hwn/adran hon arfarnu pa mor effeithiol y mae'r corff llywodraethol yn herio ac yn dwyn yr uwch dîm arweinyddiaeth i gyfrif. Dylai tystiolaeth ar gyfer yr arfarniad hwn gynnwys trafodaeth gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu aelodau eraill ohono, trafodaeth gyda chadeirydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ymdrin â chwynion a safbwyntiau sampl o ddysgwyr am ansawdd yr addysg y maent yn ei chael.

Os yw strwythur y sefydliad wedi deillio o uno sefydliad yn ddiweddar, yna rhaid i'r paragraff hwn/adran hon gynnwys arfarniad o ba mor llwyddiannus fu'r uno o ran y deilliannau ar gyfer dysgwyr. I wneud hyn, bydd angen ystyried effaith yr uno ar y cwricwlwm, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ar draws y sefydliad, addysgu, prosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys rheoli perfformiad staff, defnyddio adnoddau, gan gynnwys rhesymoli cyflenwad adeiladau, cyfleusterau a staff ac ansawdd gwaith gyda phartneriaid gan gynnwys ysgolion, addysg uwch a busnesau/diwydiant lleol.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Dylai'r paragraff hwn arfarnu gonestrwydd, trylwyredd ac ehangder trefniadau'r sefydliad ar gyfer hunanarfarnu. Rhaid gwneud arfarniad ynghylch pa mor dda y mae hunanarfarnu wedi'i ymgorffori yng nghylch cynllunio busnes a gwelliant y sefydliad, gan gynnwys pa mor dda y mae'r hunanarfarniad yn ystyried safbwyntiau staff a dysgwyr.

## 7 Crynodeb o gynnydd yn ôl yr argymhellion a amlinellir yn adroddiad [nodwch ddyddiad]

(Yn yr adran hon, dylech ddefnyddio'r crynodeb o gynnydd yn ôl yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf, gan gynnwys y rhai o sefydliadau etifeddiaeth.)

## 8 Arall

Dylai'r adran hon ddarparu arfarniad bras o ba mor dda y mae'r sefydliad addysg bellach:

- wedi rheoli effaith uno sefydliadau;
- yn defnyddio Llais y Dysgwr i wella darpariaeth ar gyfer dysgwyr;
- yn cynllunio ac yn hyrwyddo darpariaeth Gymraeg;
- yn gwneud cynnydd cynnar o ran cyflwyno rhaglenni meysydd dysgu;
- yn cyfrannu at y rhwydwaith 14-19; ac
- yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.

Gall yr arolygydd cyswllt sefydliadau addysg bellach ddefnyddio'r adran hon hefyd i adrodd ar unrhyw faterion eraill a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a chanlyniad y trafodaethau hyn.

**Y camau nesaf**

O ganlyniad i'r arfarniadau hyn, a'r cynnydd [nodwch y disgrifiwr] yn ôl yr argymhellion, bydd gan y sefydliad 30 diwrnod yn awr i baratoi cynllun gweithredu. Mae angen i'r cynllun gweithredu hwn amlinellu'r camau y bydd y sefydliad yn eu cymryd i roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith.

Mae angen i'r cynllun nodi'n glir pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am dasgau, cynnwys cerrig milltir, nodi adnoddau perthnasol a sut bydd llwyddiant yn cael ei ddangos.

Yn ogystal â'r argymhellion a nodir isod, dylai'r sefydliad ymateb i'r holl faterion a nodwyd yn y llythyr hwn.

Bydd eich arolygwyr cyswllt Estyn, [nodwch enwau] AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol a'r cynllun gweithredu trwy eu rôl cyswllt gyda'r sefydliad.

**Argymhellion**

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r sefydliad:

A1
A2
A3
A4

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Corff Llywodraethol ac i Lywodraeth Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

**Atodiad 4: Arweiniad ar ddefnyddio Llais y Dysgwr**

Sut bydd Estyn yn defnyddio canlyniadau Llais y Dysgwr ar gyfer arolygu darparwyr ôl-16

1 Byddwn yn defnyddio canlyniadau llais y dysgwr ar gyfer yr holl waith arolygu ar gyfer:

- sefydliadau addysg bellach;
- consortia dysgu yn y gwaith;
- dysgu oedolion yn y gymuned; a
- Chymraeg i oedolion.

2 Bydd arolygwyr cyswllt yn gyfrifol am ddadansoddi ac arfarnu canlyniadau Llais y Dysgwr ar lefel darparwr ac yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth hon ar gael i dimau arolygu pan fo'n briodol. Bydd yr arolygydd cyswllt ôl-16 yn llunio sylwadau bob blwyddyn ac yn nodi trywyddau ymholi.

3 Bydd yr arolygydd cyswllt yn trafod ei arfarniad a'i drywyddau ymholi gyda'r darparwr bob blwyddyn. Byddant yn cynnwys adroddiad o hyn yn ei adroddiad perfformiad blynyddol ac ar gyfer timau arolygu fel y bo'n briodol.

4 Bydd adroddiadau arolygu hyd at Fedi 2014 yn cynnwys sylwadau arfarnol yn cymharu canlyniadau LV â chanlyniadau cenedlaethol ar sail y data a ddarperir gan graffiau gwybodaeth sector, a sylwadau arfarnol o'r canlyniadau gair am air.

5 Bydd adroddiadau arolygu o Fedi 2014 yn darparu'r un sylwadau arfarnol ond gan ddefnyddio adroddiadau cryno y darparwr o foddhad dysgwyr, sy'n cael eu llunio gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

**Atodiad 5: Arolwg Medrau ar gyfer arolygwyr cyswllt sefydliadau addysg bellach**

Llenwch y tablau isod:

| LLYTHRENNEDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BLWYDDYN | Nifer y dysgwyr ar gyrsiau pum awr neu fwy | Nifer y dysgwyr sydd wedi cael asesiad cychwynnol (yn Saesneg) | Nifer y dysgwyr Mynediad 1 i Fynediad 3 | Nifer y dysgwyr ar Lefel 1 | Nifer y dysgwyr ar L2 neu'n uwch |
| | | | | | |

| LLYTHRENNEDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BLWYDDYN | Nifer y dysgwyr ar gyrsiau pum awr neu fwy | Nifer y dysgwyr sydd wedi cael asesiad cychwynnol (yn Gymraeg) | Nifer y dysgwyr Mynediad 1 i Fynediad 3 | Nifer y dysgwyr ar Lefel 1 | Nifer y dysgwyr ar L2 neu'n uwch |
| | | | | | |

| RHIFEDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BLWYDDYN | Nifer y dysgwyr ar gyrsiau pum awr neu fwy | Nifer y dysgwyr sydd wedi cael asesiad cychwynnol (yn Saesneg) | Nifer y dysgwyr Mynediad 1 i Fynediad 3 | Nifer y dysgwyr ar Lefel 1 | Nifer y dysgwyr ar L2 neu'n uwch |
| | | | | | |

| RHIFEDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BLWYDDYN | Nifer y dysgwyr ar gyrsiau pum awr neu fwy | Nifer y dysgwyr sydd wedi cael asesiad cychwynnol (yn Gymraeg) | Nifer y dysgwyr Mynediad 1 i Fynediad 3 | Nifer y dysgwyr ar Lefel 1 | Nifer y dysgwyr ar L2 neu'n uwch |
| | | | | | |

| | Llythrennedd | Rhifedd |
|---|---|---|
| Nifer y dysgwyr a nodwyd ar gyfer cymorth penodol y tu allan i'r dosbarth gydag arbenigwyr cymorth dysgu | | |
| Nifer y dysgwyr sy'n cael cymorth penodol y tu allan i'r dosbarth gydag arbenigwyr cymorth dysgu | | |

**CWESTIYNAU DILYNOL:**

- Sut caiff targedau llythrennedd a rhifedd eu gosod ar gyfer dysgwyr?
- Sut caiff y pellter y mae dysgwyr yn ei deithio mewn llythrennedd a rhifedd ei fesur a'i gofnodi ar lefel cwrs a sefydliad cyfan?
- Sut caiff athrawon a rheolwyr eu dwyn i gyfrif am welliant mewn safonau mewn llythrennedd a rhifedd?
- Pa mor dda y mae'r sefydliad yn gwneud wrth wella medrau llythrennedd a rhifedd pob dysgwr? Sut maent yn gwybod?

| Atodiad 6: Effaith uno sefydliadau addysg bellach |
|---|

## Safonau

| **Beth fu'r effaith ar ddeilliannau am y ddwy flynedd ar ôl uno?**<br><br>Nodwch gyrsiau penodol a oedd yn cael eu cynnig gan y ddau sefydliad, e.e. cerbydau modur. Beth oedd y deilliannau ar gyfer pob coleg unigol a beth yw'r deilliannau ar gyfer y coleg cyfunol. A yw deilliannau wedi gwella, dirywio neu aros yn gyson? |
|---|
| |

| **Beth fu'r effaith ar ddilyniant dysgwyr i lefelau uwch o gyrsiau?**<br><br>A yw'r uno wedi galluogi dysgwyr i symud yn haws i gyrsiau lefel uwch? A yw lefelau uwch o gyrsiau yn cael eu cynnig ym mhob safle neu a oes rhaid i ddysgwyr adleoli i safleoedd eraill ar gyfer dilyniant? Nodwch gwrs/gyrsiau penodol ac olrhain y cyfraddau dilyniant cyn yr uno ac ar ôl hynny. A oes mwy neu lai o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch neu a yw niferoedd yn aros yn gyson? |
|---|
| |

| **Beth fu effaith uno safonau cymhwyster 'mynediad' dau gwrs gwahanol?**<br><br>Er enghraifft, beth fu'r effaith gychwynnol ar ddeilliannau a chyrsiau lle roedd gofynion mynediad ar gyrsiau yn is mewn un sefydliad? Pan fydd galluoedd dysgu a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr ar yr un cwrs yn wahanol iawn, beth fu'r effaith ar ddysgwyr? |
|---|
| |

| **Sut cafodd gwasanaethau cymorth myfyrwyr eu huno?**<br><br>A yw myfyrwyr ar bob safle yn cael yr un cyfle i fynd at staff cymorth cymwys? Beth oedd niferoedd y cymorth i ddysgwyr ym mhob sefydliad unigol? Beth yw'r niferoedd ar draws y coleg cyfunol? A yw staff â chymwysterau penodol (er enghraifft, arwyddwyr ar gyfer y byddar) yn cael eu cyflogi ar draws yr holl safleoedd? Beth yw goblygiadau darparu'r cymorth hwn os oes rhaid i staff deithio? A yw hyn wedi effeithio ar y cymorth a gaiff dysgwyr? |
|---|
| |

## Lles

| **Pa newidiadau a wnaed i sicrhau bod pob dysgwr ar bob safle yn cael profiad cyfartal o les?**<br><br>A yw safleoedd gwahanol yn cynnig profiadau gwahanol?  Er enghraifft – cyfleusterau gofal plant, dewisiadau siop goffi/ffreutur, cyfleusterau ystafell gyffredin, opsiynau allgyrsiol. |
|---|
| |

| **Beth fu'r effaith ar grwpiau penodol o fyfyrwyr?**<br><br>Pa grwpiau myfyrwyr oedd yn cael eu cynnig ym mhob sefydliad unigol?  A yw'r rhain wedi cael eu hailadrodd ar draws yr holl safleoedd neu a oes rhai grwpiau wedi cael eu colli yn ystod yr uno?  Er enghraifft – grwpiau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, cymdeithas Gristnogol, grwpiau gweddïo Mwslimaidd, ac ati. |
|---|
| |

## Darpariaeth

| **Beth fu effaith yr uno ar safonau addysgu?**<br><br>Beth oedd y proffiliau arsylwi cyn uno a beth yw'r proffil ar ôl uno?  Pa feysydd i'w gwella a nodwyd gan y sefydliad i sicrhau bod safonau addysgu'n gyson ar draws yr holl safleoedd?  Beth fu'r effaith ar DPP? |
|---|
| |

| **Sut mae adrannau ILS wedi cael eu heffeithio gan yr uno?**<br><br>A yw adrannau ILS yn parhau fel yr oeddent cyn uno neu a ydynt wedi cael eu huno / rhesymoli i un safle?  Beth oedd cynigion y cwricwlwm i'r dysgwyr hyn cyn uno ac ar ôl uno? |
|---|
| |

| **Beth fu effaith yr uno ar ddysgwyr cyrsiau sylfaen? (y dysgwyr hynny nad oes ganddynt y proffil cymwysterau i ymuno â chyrsiau prif ffrwd)**<br><br>Mae amrywiad sylweddol wedi bod rhwng y dewisiadau a gynigir gan golegau ar gyfer y dysgwyr hyn o ddosbarthiadau ar wahân i gyrsiau cynalwedigaethol. Sut mae uno wedi effeithio ar y cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr hyn? Ystyriwch yr opsiynau cyn ac ar ôl uno a chymharu'r deilliannau a'r data dilyniant rhwng y sefydliadau cyn ac ar ôl uno. |
|---|
| |

| **Pa newidiadau a wnaed i leoliadau a safleoedd o ganlyniad i uno?**<br><br>Faint o adnoddau sydd wedi cael eu hadnewyddu? A gafwyd adeiladau newydd yn sgil yr uno? |
|---|
| |

| **Sut mae'r uno wedi effeithio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?**<br><br>Sut mae'r gofyniad ar gyfer cyrsiau a chymorth Cymraeg wedi cael ei ystyried o fewn y sefydliadau newydd? A yw nifer a dewis y cyrsiau wedi cynyddu? A yw'r cyrsiau Cymraeg wedi cael ei rhesymoli i safle penodol? Os na – a yw athrawon Cymraeg arbenigol yn teithio rhwng safleoedd? |
|---|
| |

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

| **Beth fu'r effaith ar reolwyr?**<br><br>A ofynnwyd i reolwyr gymryd cyfrifoldebau ychwanegol? A yw eu gwaith wedi cael ei symleiddio i ddyletswyddau mwy cyfyngedig ar draws pob safle? A ydynt wedi ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach ond o fewn un safle? A fu cynnydd neu ostyngiad yn niferoedd y rheolwyr ar bob lefel? A fu effaith sylweddol ar y costau ariannol? |
|---|
| |

| **Beth fu'r effaith ar athrawon y coleg?**<br><br>Faint o athrawon ymgeisiodd am ddiswyddiad gwirfoddol? Faint o'r rhain gafodd eu derbyn? Faint o staff a symudodd i swyddi newydd? Faint o staff a symudodd i safleoedd newydd? A yw gwasgaru staff ar draws safleoedd wedi effeithio ar gostau (teithio, ac ati)? |
|---|
| |

| **Beth fu'r effaith ar wasanaethau 'ystafell gefn'?**<br><br>A yw swyddfeydd arholiadau wedi cael eu cyfuno ar un safle neu a yw cymwysterau wedi cael eu rhannu rhwng swyddfeydd arholiadau ar safleoedd ar wahân? A gaiff arholiadau eu cynnal ar un safle neu ar draws safleoedd? A yw hyn yn golygu mwy o deithio i ddysgwyr? |
| --- |
| |

| **Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar leoliad cyrsiau lle ceir dyblygu?**<br><br>Beth fu effaith hyn ar ddysgwyr? Beth fu'r effaith ar gyllid lle mae'n rhaid i ddysgwyr deithio ymhellach? |
| --- |
| |

| **Beth yw'r newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm a gynigir?**<br><br>A oes mwy o ddewisiadau i'r dysgwyr? A yw dysgwyr yn cael trafferth cyfuno dewisiadau cyrsiau lle gallai'r rhain fod ar safleoedd gwahanol? Sut mae'r cwricwlwm diwygiedig wedi effeithio ar niferoedd y dysgwyr (gwiriwch niferoedd y dysgwyr cyn ac ar ôl uno)? A yw cyrsiau arwyddocaol (o ran niferoedd) wedi cael eu symud i safleoedd eraill? Pa ystyriaeth y mae'r sefydliad wedi'i rhoi i ffactorau'r farchnad lafur mewn gwahanol gymunedau wrth leoli cyrsiau? |
| --- |
| |

| **Sut caiff ansawdd ei reoli ar draws y safleoedd?**<br><br>Gan gynnwys y trefniadau ar gyfer gwirio mewnol a gwirio allanol lle cynigir pynciau ar fwy nag un safle. Beth yw'r strwythur ar gyfer sicrhau bod safonau'n gyson ar draws yr holl safleoedd a'r holl feysydd dysgu? A yw'r ymdrech am ansawdd safonedig wedi golygu bod athrawon wedi symud i safleoedd eraill? Sut mae hyn wedi effeithio ar ddynameg adrannau? |
| --- |
| |

| **Sut mae'r sefydliad wedi rheoli meincnodau, cymaryddion a thargedau rhwng sefydliadau?**<br><br>Er enghraifft, a yw'r coleg wedi cyfuno'r data cyn uno ar gyfer blynyddoedd blaenorol i ffurfio meincnod newydd a gosod targedau? Sut mae hyn wedi effeithio ar dargedau? A yw hyn yn golygu bod maes dysgu a oedd yn perfformio'n dda yn y gorffennol wedi gostwng neu gynnal targedau erbyn hyn er mwyn i feysydd nad ydynt yn perfformio cystal ddal i fyny? Ewch i'r afael ag effaith trwy edrych ar dargedau meysydd dysgu cyn ac ar ôl uno. |
| --- |
| |